

Blinatumomab ar gyfer trin lewcemia lymffoblastig aciwt sydd wedi gwella dros dro gyda gweithgarwch clefyd gweddilliol minimol

24 Gorffennaf 2019

Mae Blinatumomab (Blincyto) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer lewcemia lymffoblastig aciwt rhagflaenydd B, CD19-positif, cromosom-Philadelphia-negatif mewn oedolion â chlefyd gweddilliol minimol o 0.1% o leiaf, dim ond os bydd y clefyd wedi gwella'n llwyr dros dro am y tro cyntaf.

Os nad ydych yn gymwys i gael blinatumomab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg gywir i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Cymdeithas Canser Lewcemia](#), 0208 374 4821
- [GOFAL Lewcemia](#), 08088 010 444
- [Bloodwise](#), 0808 2080 888
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3467-6